



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# BIL ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL (CYMRU) DRAFFT

## ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

TROSOLWNG O'R ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG HWN.....	3
ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH Cymru YN EU HYSTYRIED A PHAM? .....	4
Adran 2. Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol? .....	6
Adran 3. Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a'r iaith Gymraeg?.....	10
Adran 4. Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd? .....	13
Adran 5. Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol? .....	18
Adran 6. Cofnod o'r Aseidiadau Effaith Llawn Gofynnol .....	21
Prawfesur Polisiâu o Safbwynt Anghenion Cefn Gwlad.....	21
Nac oes .....	21
Y Gymraeg.....	21
Oes* .....	21
Economaidd/Aseiad Effaith Rheoleiddiol.....	21
Oes .....	21
I'w ychwanegu ar ôl ei gwblhau.....	21
Cyfiawnder.....	21
Oes.....	21
Adran 7. CASGLIAD .....	23

### Cyd-destun

Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn ymwneud â'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) arfaethedig. Mae'r newidiadau deddfwriaethol sy'n cael eu cynnig yn y Bil yn cwmpasu nifer o feysydd yn ymwneud â chyllido addysg drydyddol ac ymchwil. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu awdurdod strategol newydd – y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (y Comisiwn) – i ddarparu trosolwg, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol gan gynnwys y chweched dosbarth mewn ysgolion. Bydd y corff hwn yn disodli CCAUC a bydd yn gyfrifol am swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Trwy sicrhau bod un comisiwn yn gyfrifol am ddarpariaeth addysg drydyddol, y bwriad yw lleihau dyblygu gwaith, cymhlethdod diangen a diffyg gweithio cydgysylltiedig rhwng sefydliadau addysgol ôl-orfodol gwahanol, a datblygu partneriaethau presennol a fframweithiau cydweithredol sy'n bodoli eisoes.

Y prif wahaniaeth rhwng y trefniadau presennol a dull gweithredu'r Comisiwn arfaethedig yw'r bwriad i sicrhau bod y Comisiwn yn gallu mabwysiadu dull 'systemau cyfan' a chynllunio ac ariannu darpariaeth yn unol â hynny. Mae Gweinidogion Cymru a rhanddeiliaid yn disgwyl y bydd y Comisiwn yn gallu cael effaith hirdymor trwy hyrwyddo darpariaeth gydlynol a chydweithrediad rhwng darparwyr.

Mae'r Bil yn cynnwys gofyniad i'r Comisiwn ddatblygu a chyflwyno cynllun strategol mewn ymateb i flaenoriaethau strategol Gweinidogion Cymru. Dylai hyn helpu i gysoni gweithgareddau'r Comisiwn ag anghenion Cymru a'i dinasyddion, yn ddysgwyr ac yn gyflogwyr.

### Asesiad Effaith Integredig

Rydym wedi ystyried sut mae darpariaethau'r Bil:

- Yn gweddu i flaenoriaethau a gweledigaeth *Ffyniant i Bawb*<sup>1</sup>;
- Yn gallu cyfrannu at lesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol Cymru, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Yn gallu effeithio ar Gymru a'r bobl sy'n byw yma, mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol.

---

<sup>1</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf>

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

### Cefndir

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd yr Athro Ellen Hazelkorn “Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o’r radd flaenaf i Gymru”, sef adolygiad annibynnol o addysg ôl-orfodol yng Nghymru.

Cyflwynodd yr adolygiad ddau brif gynnig:

- Sefydlu corff hyd braich newydd i ddarparu trosolwg, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO) a’r sector ymchwil.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu gweledigaeth gyffredin ar gyfer y system AHO sy’n cynnwys cysylltiadau cryfach rhwng polisi a darparwyr addysg/hyfforddiant a nodau cymdeithasol ac economaidd.

Daeth yr Athro Hazelkorn i’r casgliad nad yw’r system bresennol yn canolbwyntio’n ddigonol ar ddysgwyr ac nad yw’n sicrhau gwerth am arian yn llawn. Un o brif themâu’r adroddiad oedd yr angen i AHO weithredu fel un sector i helpu dysgwyr i wireddu eu potensial, yn hytrach na gweithredu fel sawl sector sy’n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Byddai’n cynnwys cydweithredu a gwaith partneriaeth rhwng sefydliadau ôl-orfodol o bob math er mwyn gwireddu’r weledigaeth hon. Hefyd, roedd yr adroddiad yn cynnwys cynigion ar sut y dylid rheoleiddio a monitro AHO yn y dyfodol i greu system AHO gynaliadwy, gydlynol a chystadleuol i Gymru.

Cyfeiriodd yr Athro Hazelkorn at gynigion Llywodraeth y DU i wneud newidiadau sylweddol i drefniadaeth a chyllido gwaith ymchwil, gan arwain at oblygiadau ledled y DU. Er na wnaeth hi drafod y mater hwn yn fanwl, roedd yn cydnabod ei bwysigrwydd i economi Cymru a’i berthnasedd i AHO. Felly, mae angen cydgysylltu meysydd AHO ac ymchwil.

O ganlyniad i’r adolygiad, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ymrwymiad yn y ddogfen ‘Ffyniant i Bawb’ 2017. Amlinellir y diwygiadau fel hyn:

Byddwn yn:

- cyflwyno system gynllunio strategol newydd ar gyfer addysg ôl-16, a fydd yn cynllunio’r ddarpariaeth ar draws sectorau ac yn ymateb i anghenion Cymru.
- darparu llwybrau datblygu cydlynol drwy a rhwng y sectorau addysg ôl-16 gwahanol, fel bod llwybr dysgu’r unigolyn yn diwallu ei anghenion a’i ddyheadau yn hytrach na chael ei ddiffinio gan ffiniau artiffisial rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol.
- dwyn ynghyd yr holl gyllid ar gyfer ymchwil a sicrhau bod penderfyniadau ynghylch cyllid yn adlewyrchu blaenoriaethau Cymru, gan gynnwys anghenion y sectorau economaidd rhanbarthol a chenedlaethol.

- sicrhau cydweithio agosach rhwng diwydiant, ysgolion, prifysgolion, colegau a'r GIG i godi uchelgais a chynyddu buddsoddiad mewn ymchwil, gan ddatblygu swyddi a thechnolegau'r dyfodol.

## **Datblygu Polisi**

Mae'r cynigion wedi'u datblygu ar sail pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Fe'u bwriedir i ddarparu manteision hirdymor i ddarparwyr, dysgwyr a chyflogwyr trwy ddwyn ynghyd addysg ôl-orfodol o bob math o dan un corff hyd braich. Dylai hyn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn gallu ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am lwybrau dysgu sy'n briodol i'w hanghenion a'u dyheadau.

Mae'r cynigion yn cyfrannu at ymrwymïadau allweddol Ffyniant i Bawb a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi trwy gyflwyno system gynllunio newydd ar gyfer addysg ôl-16 sy'n cynllunio'r ddarpariaeth ar draws sectorau ac yn ymateb i anghenion economaidd Cymru. Nod y strategaeth yw darparu llwybrau datblygu cydlynol drwy a rhwng y sectorau addysg ôl-16 gwahanol, fel bod llwybr dysgu'r unigolyn yn diwallu ei anghenion a'i ddyheadau yn hytrach na chael ei ddiffinio gan ffiniau artiffisial.

Mae'r polisi wedi'i ddatblygu ar ôl derbyn ymatebion manwl gan randdeiliaid fel CCAUC, sefydliadau AU, sefydliadau Addysg Bellach, ESTYN, awdurdodau lleol, ysgolion, cyrff rheoleiddio, darparwyr prentisiaethau, cynrychiolwyr y gweithlu, cyflogwyr a busnesau, a chydweithio â nhw wedyn.

Yn ystod ein hymgyngoriadau fe aethom ati i gynnwys dysgwyr a darparwyr, gan drafod ein cynigion â nhw mewn digwyddiadau Sgiliau Cymru, mewn ysgolion a cholegau lleol ac mewn sioeau teithiol ledled Cymru. Hefyd, cyhoeddwyd ymgynghoriad ar gyfer Pobl Ifanc, a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer ein rhanddeiliaid iau, ochr yn ochr â'n Papur Gwyn.

## **Effaith**

Bydd darpariaethau'r Bil yn sicrhau bod prif argymhelliad adolygiad Hazelkorn yn cael ei weithredu: creu corff hyd braich sy'n gyfrifol am y sector ôl-orfodol ac ymchwil yn ei gyfanrwydd. Disgwylir i'r Comisiwn arfer ei swyddogaethau gan ystyried blaenoriaethau strategol Gweinidogion Cymru.

Bydd y darpariaethau yn effeithio ar ddarparwyr a dysgwyr o bob math sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Disgwylir i'r manteision gynnwys y canlynol:

- Un dull diwylliannol o reoleiddio sefydliadau ledled addysg a hyfforddiant ôl-orfodol trwy ddiben cyffredin
- Cyfatebiaeth well rhwng cyflenwi cyfleoedd addysg, hyfforddiant ac ymchwil a'r galw gan ddysgwyr a chyflogwyr

- Gwerth am arian (enillion gwell ar fuddsoddiad ymchwil ac arloesi)
- Mwy o brosiectau ymchwil ac arloesi cydweithredol
- Lleihad yn nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a mwy o ddysgwyr ôl-16 yn camu ymlaen i addysg uwch a/neu swydd sy'n talu'n dda
- Cydnabyddiaeth gynyddol o werth cymwysterau academaidd a galwedigaethol
- Mwy o addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg ar gael a chynnydd yn nifer yr unigolion sy'n dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dysgwyr fwyfwy bodlon
- Parhad yn y ddarpariaeth ar draws y sector cyfan: llwybr cydlynus ar gyfer dysgwyr a darparwyr
- Model cyllido cydlynus ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol
- Cysondeb rhwng cyllido a chostau darpariaeth ledled addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (yr un fath mewn Addysg Uwch ac Addysg Bellach.): Dull rhesymegol o gyllido er mwyn darparu'n briodol, sy'n gysylltiedig â chyflenwad/galw.
- Mwy o ddefnydd ar y cyd o gyfleusterau (cytundebau gwasanaethau a rennir)
- Bydd trosolwg o'r sector yn cynyddu'r gallu i gynllunio ac addasu ar y cyd, ar gyfer newidiadau economaidd a chymdeithasol y dyfodol

### **Goblygiadau ariannol**

Mae goblygiadau ariannol y darpariaethau wedi'u cynnwys yn rhan 2 y Memorandwm Esboniadol, yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a fydd yn cyd-fynd â'r Bil pan gaiff ei gyflwyno.

### **Dulliau cyflawni**

Y cynnig yw cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei gyflwyno fel rhan o ddogfennau'r Bil pan gaiff ei gyflwyno.

## **ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?**

### **2.1 Pobl a Chymunedau**

Bydd y darpariaethau sy'n cael eu cynnwys yn y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn effeithio ar ddysgwyr a darparwyr o bob math sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, gan gynnwys dosbarthiadau chweched dosbarth a gynhelir sy'n cael eu hariannu gan y Comisiwn.

Caiff y prif fanteision cymdeithasol eu hystyried yn fanylach yn yr asesiadau o'r effaith ar Hawliau Plant, Cydraddoldeb, Prawfesur Polisiâu o Safbwynt Anghenion Cefn Gwlad, Iechyd a Phreifatrwydd sydd ynghlwm wrth y ddogfen hon.

## **2.2 Hawliau Plant**

Mae Asesiad Llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant i'w weld yn **Atodiad A** isod.

## **2.3 Cydraddoldeb**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny.

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gael trefniadau ar waith ar gyfer cynnal Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) yn ddadansoddiad ffurfiol, systematig a thrylwyr o weithredoedd sefydliad er mwyn asesu'r gweithredoedd hynny ar gyfer gwahaniaethu posibl, ac ar gyfer y cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin cysylltiadau da.

Adeg ymgynghoriad y Papur Gwyn, cwblhawyd EIA cychwynnol. Dangosodd hynny fod y cynigion *yn eu cyfanrwydd* yn annhebygol o effeithio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig, er gwaethaf y gwahaniaeth a nodwyd rhwng y rhai hyd at 19 oed a'r rhai dros 19 oed. Profwyd y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr asesiad yn ystod yr ymarferiad ymgynghori, ac mae'r asesiad wedi'i ddiweddarau i ystyried y wybodaeth ddiweddaraf yn ogystal â'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae cynnal EIA yn orfodol ac mae'r asesiad wedi'i gwblhau ac wedi'i gynnwys yn Atodiad B.

## **2.4 Prawfesur Polisiâu o Safbwynt Anghenion Cefn Gwlad**

Mae disgwyl i ni sicrhau bod anghenion pobl sy'n byw, yn gweithio, yn cymdeithasu ac yn cynnal busnesau mewn ardaloedd gwledig yn cael eu hystyried yn wrthrychol. Mae cwblhau Asesiad o Effaith Prawfesur Polisiâu o Safbwynt Anghenion Cefn Gwlad yn rhan orfodol o'r broses o lunio polisiâu.

Mae prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad yn un o ymrwymïadau'r Llywodraeth, ac mae'n seiliedig ar egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, cynaliadwyedd, cydraddoldeb a thegwch. Mae'n cynnwys camau gweithredu i wella ansawdd bywyd pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig yng Nghymru.

Bydd y darpariaethau a gynigir yn y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn berthnasol i unrhyw un sy'n derbyn neu'n darparu addysg, hyfforddiant neu ymchwil ôl-orfodol yng Nghymru, gan gynnwys dysgwyr a darparwyr mewn lleoliadau gwledig.

Awgrymodd trafodaethau a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad technegol mai sicrhau dewis oedd yr her fwyaf i ardaloedd gwledig yng Nghymru, er enghraifft oherwydd cyfyngiadau mewn ardaloedd lle nad yw addysg drydyddol ar gael neu ar gyfer mynediad i addysg uwch.

I ddarparwyr, mae darpariaeth yn fwy costus mewn ardaloedd gwledig er bod modd lliniaru hyn i ryw raddau drwy ddysgu ar-lein neu ddysgu cyfunol, cyn belled â bod y dechnoleg berthnasol ar gael i fyfyrwyr. Mae'n gallu bod yn fwy anodd darparu cymorth i fyfyrwyr mewn ardal wledig wasgaredig.

Rhagwelir y bydd ein cynigion yn cael effaith gymedrol ar gymunedau gwledig. Dylai sefydlu'r Comisiwn gael effaith gadarnhaol ar ddiwallu anghenion dysgwyr mewn ardaloedd gwledig a threfol ledled Cymru, a bydd yn helpu i sefydlu llwybrau dysgu a gyrfa clir a hyblyg, gan ddarparu gwybodaeth a chyngor gwell i ddysgwyr a darpar ddysgwyr sy'n dymuno cymryd rhan neu wneud cynnydd mewn addysg a hyfforddiant ôl 16.

Bydd gan y Comisiwn drosolwg o holl ddarparwyr dysgu AHO ynghyd â'r cyfleoedd addysg a hyfforddiant sy'n cael eu cynnig gan y darparwyr hyn. Felly, bydd mewn sefyllfa dda i nodi bylchau yn y ddarpariaeth, gan gynnwys problemau sy'n wynebu dysgwyr mewn rhannau o Gymru sy'n methu dilyn y cyrsiau sydd eu hangen arnynt, a'r problemau sy'n wynebu busnesau na allant recriwtio gweithwyr â sgiliau priodol.

Bydd darpariaethau yn y Bil yn sicrhau bod yn rhaid i'r Comisiwn, wrth sicrhau addysg bellach a hyfforddiant *roi sylw i ofynion cyflogwyr mewn perthynas â'r addysg a'r hyfforddiant sydd eu hangen mewn sectorau cyflogaeth gwahanol*. O dan ddyletsyddau cyffredinol (Rhan 1) rhaid iddo roi sylw i: *ofynion rhesymol diwydiant, masnach, cyllid, y proffesiynau a chyflogwyr eraill ym meysydd addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi*. Drwy weithio'n agos gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, bydd gan y Comisiwn y cyfle i adolygu'r ddarpariaeth ddysgu sydd ar gael, er mwyn sicrhau cysondeb ag anghenion sgiliau busnesau a dysgwyr lleol. Wedyn, gellid defnyddio cytundebau'r deilliannau a negodwyd gyda phob darparwr dysgu er mwyn helpu i lenwi unrhyw fylchau. Yn yr hirdymor, dylai hyn helpu dysgwyr i ennill y sgiliau sydd eu hangen i gael swyddi o ansawdd uchel mewn marchnad lafur sy'n gynyddol gystadleuol.



Gan y bydd yr effaith ar ddysgwyr gwledig yn gymedrol, ac nad oes bwriad i ddarpariaethau'r Bil gael effaith uniongyrchol ar gymunedau gwledig, ni fydd angen asesiad llawn o'r effaith ar brawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad.

## **2.5 Iechyd**

Ni ragwelir y bydd y darpariaethau yn y Bil yn cael effaith uniongyrchol ar benderfynyddion iechyd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd manteision anuniongyrchol hirdymor yn deillio o allu dysgwyr i gael cyflogaeth ystyrlon ac felly ymgysylltu'n well â chymdeithas a gwella eu safon byw, gan arwain at fanteision cysylltiedig o safbwynt iechyd a llesiant.

Drwy helpu dysgwyr i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael gwaith, mae'n bosibl y bydd effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a llesiant.

### **Amodau Economaidd**

Rhagwelir y bydd darpariaethau'r Bil yn cael effaith gadarnhaol ar amodau economaidd. Un o brif gyfrifoldebau'r Comisiwn fydd diogelu buddiannau dysgwyr gan sicrhau bod cymwysterau academiaidd a galwedigaethol yn cael eu gwerthfawrogi i'r un graddau a bod dysgwyr yn ennill y sgiliau priodol sydd eu hangen arnynt i lwyddo mewn marchnad sy'n fwyfwy cystadleuol. Yn ogystal, bydd y Comisiwn yn gyfrifol am gysoni addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ag anghenion cyflogwyr yng Nghymru, gan helpu i ddatblygu economi gryfach yn y dyfodol. Yn yr hirdymor, bydd gwella deilliannau addysgol dysgwyr a dysgu gydol oes yn cael effaith gadarnhaol ar fathau ac ansawdd cyflogaeth a lefelau ymgysylltu â chymdeithas. Dros amser, bydd hyn yn helpu i leihau tlodi a'i effeithiau cysylltiedig.

Mae effaith gyfansawdd cyflogaeth yn gwella'r tebygolrwydd o gynyddu cyfoeth a sicrhau amgylchedd mwy iach adeg ymddeoliad, sy'n cael effaith uniongyrchol ar lesiant, adferiad a chyfraddau marwolaeth ymysg pobl hŷn.

### Effeithiau Cadarnhaol

Bydd darpariaethau'r Bil yn cael effaith gadarnhaol ar benderfynyddion cymdeithasol cyffredin iechyd, yn benodol ym meysydd gwella cyfleoedd cyflogaeth a'r manteision cysylltiedig ar gyfer iechyd meddwl a llesiant a gwella safonau byw. Bydd economi gryfach yn helpu i fynd i'r afael â lefelau tlodi a'r effeithiau negyddol cysylltiedig ar iechyd.

### Effeithiau Negyddol

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar iechyd. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn yn monitro hyn trwy ddarparwyr addysg drydyddol, wrth i'r broses o ddatblygu'r polisi fynd rhagddi ac os yw camau lliniaru gofynnol yn cael eu rhoi ar waith.

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod cyflogaeth yn helpu i wella iechyd a llesiant gweithwyr cyflogedig a'u teuluoedd. Gobeithir y bydd effeithiau cadarnhaol ar allu dysgwyr i gael

swyddi o ansawdd uchel, gan wella'r deilliannau ar gyfer unigolion sy'n ddi-waith ar hyn o bryd neu ar incwm isel.

Gan nad yw'r effeithiau a nodwyd yn arwyddocaol, nid oes asesiad manylach o'r effaith ar iechyd wedi'i gwblhau.

## **Preifatrwydd**

Mae Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd (PIA) yn ddadansoddiad o sut mae gwybodaeth bersonol, yn ymwneud â grwpiau neu unigolion, yn cael ei chasglu, ei storio, ei diogelu, ei rhannu a'i rheoli. Mae'r PIA yn broses ar gyfer asesu goblygiadau preifatrwydd gweithgareddau sy'n cynnwys defnyddio data personol, a newidiadau i ddefnyddio data personol.

Mae'n rhaid i bolisi, prosiect, deddfwriaeth neu brosiect TGCh a fydd yn prosesu data personol, neu sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliad arall wneud hynny, gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae asesiad ffurfiol o'r effeithiau ar breifatrwydd yn ofyniad ar gyfer pob gweithgaredd newydd sy'n cynnwys defnyddio data personol.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd i'w weld yn Atodiad D.

## **ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R IAITH GYMRAEG?**

### **3.1 Llesiant Diwylliannol**

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer diwylliant yw 'Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'. Mae diwylliant yn cynnwys amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd a'r celfyddydau; mae treftadaeth yn cynnwys yr amgylchedd hanesyddol adeiledig yn ogystal â threftadaeth anniriaethol fel traddodiadau; mae'r celfyddydau yn cwmpasu'r sectorau perfformiad a chreadigol gan gynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, theatr a chelf, tra bod chwaraeon a hamdden yn cynnwys chwaraeon elît a chwaraeon cymunedol yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored ehangach.

Un o argymhellion allweddol adroddiad Hazelkorn oedd yr angen i gynnwys ymgysylltiad dinesig fel cenhadaeth greiddiol a dod yn ymrwymiad sefydliad cyfan ar gyfer pob sefydliad addysg ôl-orfodol.

Mae'r ddau bapur ymgynghori yn nodi'r her i sefydliadau academaidd adennill ymdeimlad o genhadaeth ddinesig, gan bwysleisio ei bod yn hanfodol iddynt estyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a'r campws a gweithio gyda'u cymunedau - gan hyrwyddo gwybodaeth, dysgu a sgiliau ledled y gymdeithas. Roedd y papurau'n cydnabod bod angen mwy o eglurder ar

gyfer fframwaith ein system addysg ôl-orfodol er mwyn cefnogi'r gweithgaredd hwn a sicrhau perthynas gryfach rhwng dinasyddion, cymunedau, ymchwilwyr a darparwyr.

Colofnau allweddol y cysyniad yw:

- ymestyn y tu hwnt i gampysau i'r cymunedau sy'n eu cynnal drwy ddatblygu partneriaethau oddi mewn a rhwng y gymuned;
- cymryd rhan mewn gweithgareddau i ehangu mynediad at addysg, gan gynnwys datblygu partneriaethau rhwng darparwyr addysg a sefydliadau eraill sy'n gallu'r hyrwyddo'r nod hwn;
- annog cyfleoedd menter ac entrepreneuriaeth i fyfyrwyr/graddedigion/cyflogwyr; a
- chyfrifoldeb cymdeithasol (er enghraifft, bod yn gyflogwr cyflog byw).

Fel y'i drafftiwyd, bydd gan y Comisiwn ddyletswydd i hyrwyddo cenhadaeth ddinesig gan sefydliadau yng Nghymru yn y sectorau addysg uwch ac addysg bellach. Hefyd, bydd yn gallu hyrwyddo cenhadaeth ddinesig ymysg pobl eraill, megis cyrff ymchwil ac arloesi, sy'n cael eu cyllido ganddo, os yw'n credu bod hynny'n briodol. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon i hyrwyddo cenhadaeth ddinesig, byddem yn disgwyl i'r Comisiwn weithio gyda rhanddeiliaid i nodi sut y gellir cyflawni hyn. Bydd y Comisiwn yn gallu cyflawni ei ddyletswydd i hyrwyddo cenhadaeth ddinesig wrth arfer ei swyddogaethau eraill o dan y Bil.

Mae cenhadaeth ddinesig yn cael ei diffinio yn y Bil (fel y'i drafftiwyd) fel "gweithredu at ddiben hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru". Bydd cysylltiad cryf rhwng disgwyliadau o ran sut y dylid cyflawni'r ddyletswydd hon a'r nodau a gyflwynir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fodd bynnag, bydd y ddyletswydd yn y ddeddfwriaeth hon yn fwy penodol o ran ei chwmpas. Mae darparu'n benodol ar gyfer y ddyletswydd yma yn gam arwyddocaol, gan ddangos ei bod yn flaenoriaeth allweddol i'r Comisiwn.

Ni ragwelir y bydd darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn cael effaith negyddol ar hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth na'r gallu i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon neu hamdden.

### 3.2Y Gymraeg

Pasiwyd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 9 Chwefror 2011. Mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru, sy'n golygu, ymysg pethau eraill, na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

Mae'r Mesur yn sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg, gan nodi mai ei brif nod wrth arfer ei swyddogaethau yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynyddu'r defnydd ohoni wrth ddarparu gwasanaethau a gwella'r cyfleoedd sydd gan bobl i'w defnyddio.

Cymraeg 2050<sup>2</sup> yw strategaeth genedlaethol Cymru ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llawn i'r targed o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg, sydd wedi'i chynnwys yn y rhaglen lywodraethu Symud Cymru Ymlaen, a Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru<sup>3</sup>. Mae iaith Gymraeg sy'n ffynnu hefyd yn un o saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fel yr esboniwyd uchod.

Hefyd, mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i ystyried effeithiau ei gwaith ar yr iaith Gymraeg. Mae ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol gwaith Llywodraeth Cymru ar yr iaith Gymraeg, a phobl a chymunedau Cymraeg, yn rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu a pholisïau a'u rhoi ar waith.

Mae Cymraeg 2050 yn nodi bod Cymru am sicrhau:

- cynnydd yn yr ystod o wasanaethau sy'n cael eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg, a chynnydd yn y defnydd o'r gwasanaethau hynny waeth a ydynt yn cael eu darparu gan y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector;
- teuluoedd yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, gan atgyfnerthu'r hyn sy'n digwydd yn y cartref, ac ehangu'r cyd-destunau lle mae plant yn ystyried y Gymraeg yn rhan berthnasol o'u bywyd bob dydd;
- y rhai sy'n ymweld er mwyn blasu diwylliant Cymru;
- pobl ifanc yn defnyddio'r iaith;
- cynnal a thyfu cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg;
- mwy o weithgarwch i ddathlu diwylliant yng Nghymru a thu hwnt;
- sut y bydd technoleg yn datblygu yn y dyfodol, ac ystyried y ffaith y bydd ein dulliau o gyfathrebu â'n gilydd yn parhau i newid, gan greu heriau yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer ieithoedd lleiafrifol; a
- bod yr iaith Gymraeg wrth wraidd technoleg ddigidol arloesol fel bod modd defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol.

Mae'r asesiad Cymraeg ar gael yn **Atodiad E** isod.

---

<sup>2</sup> <https://llyw.cymru/cymraeg-2050-ein-cynllun-ar-gyfer-2017-i-21>

<sup>3</sup> <https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol>

## ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi llesiant economaidd yn cael ei gryfhau drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n amlinellu saith nod llesiant cenedlaethol. Maent yn cael eu hystyried gydol yr Asesiad Effaith Integredig. Mae'r nod o greu 'Cymru Lewyrchus' yn berthnasol iawn i'r adran hon, gan ei fod yn ceisio creu "cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas."

Mae cefnogi twf yn economi Cymru, a defnyddio hyn i fynd i'r afael â thlodi, yn ganolog i *Symud Cymru Ymlaen*, Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

### 4.1 Busnes, y cyhoedd ac unigolion

Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn ystyried bod diwygio Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn allweddol wrth hyrwyddo cyfle i bawb, ac mae'n ymrwymo i gyflwyno "...system gynllunio strategol ar gyfer cyflenwi addysg a sgiliau ar draws addysg ôl-16, gan gydweithio â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau, pan fo hynny'n bosibl ac yn ymarferol, fod y gwaith hwn yn cynnwys ein sectorau cenedlaethol a sylfaen. (Bydd) ... yn asesu ac yn paru sgiliau ag anghenion yr economi, gan adeiladu ar yr ymrwymiad yn Ffyniant i Bawb i weithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ragweld anghenion sgiliau yn y dyfodol. Bydd gwaith cynllunio a chyflenwi addysg a sgiliau ôl-16 yn cynnwys cysylltiadau cadarn ag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r system addysg yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau ehangach".

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys dadansoddiad cost a budd sy'n ystyried y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil a sut y byddant yn effeithio ar sectorau gwahanol yng Nghymru.

Ni chredir y bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar fusnesau, ond gallai effeithio'n anuniongyrchol arnynt mewn ffordd gadarnhaol. Cynigir y bydd angen i'r Comisiwn weithio'n agos gyda chynrychiolwyr byd busnes, gan archwilio bylchau mewn sgiliau yn y farchnad lafur, a'u hystyried wrth gynllunio darpariaeth ledled Cymru. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol drwy nodi a mynd i'r afael ag anghenion cyflogwyr ledled Cymru. Hefyd, bydd y Comisiwn yn gweithio'n agos gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, gan sicrhau bod anghenion busnesau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn cael

eu hystyried wrth gynllunio darpariaeth. Yn ogystal â chynorthwyo busnesau mawr, gallai hyn helpu BBaCh i sicrhau eu bod yn diwallu eu hanghenion sgiliau.

Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar unigolion gan eu bod yn gallu ennill y sgiliau angenrheidiol i gael gwaith ystyrlon neu ddatblygu eu sgiliau presennol i wella eu rhagolygon gyrfa.

Yn benodol, bydd y newid i'r fframweithiau prentisiaeth yn golygu bod modd datblygu system fodwlar fwy hyblyg, a fydd yn galluogi cyflogwyr i fod mewn sefyllfa well i lunio modelau sy'n addas i'w hanghenion busnes. Mae hyn yn cynnwys y gallu i gynnwys safonau sy'n cael eu cydnabod gan fyd diwydiant ynghyd â chymwysterau'r fframwaith fel bod cyflogwyr yn gallu teilwra'r brentisiaeth yn unol â'u hangen sgiliau penodol a bod prentisiaid yn gallu gweld llwybr dilyniant clir yn y maes o'u dewis. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar sicrhau bod modd diwallu anghenion y farchnad lafur drwy sgiliau'r gweithlu. Bydd y broses o baru fframweithiau prentisiaeth ag anghenion sgiliau penodol fel darpariaethau yn y ddeddfwriaeth yn sicrhau bod modd cynnwys cymwysterau a safonau a gydnabyddir gan ddiwydiant yn y fframweithiau.

Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am ymchwil ac arloesi lefel uwch a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n dod o fewn ei gylch gwaith, yn y sector AHO. Dylai'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi gael effaith gadarnhaol ar yr economi, gan wella lefelau cynhyrchiant a Gwerth Ychwanegol Gros o ganlyniad i ragor o waith ymchwil sy'n ysgogi arloesi a chynhyrchiant mwy effeithiol.

Hefyd, gall y Comisiwn ariannu neu gefnogi a hyrwyddo gwaith ymchwil, a rhagwelir y bydd hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar dwf capasiti ymchwil yng Nghymru. Disgwylir i'r twf hwn gynyddu cyfradd llwyddiant sefydliadau ymchwil Cymru o safbwynt sicrhau cyllid ymchwil cystadleuol.

Bydd y ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer dull cadarn o sicrhau ansawdd, gan amlygu ansawdd uchel y ddarpariaeth sydd ar waith a sicrhau effaith gadarnhaol ar enw da addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru, sy'n bwysig iawn ar gyfer addysg uwch a recriwtio rhyngwladol. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i gyflogwyr a dysgwyr bod yr addysg a'r hyfforddiant ôl-16 sy'n cael eu darparu o ansawdd uchel, drwy gael effaith gadarnhaol ar lefelau cyrhaeddiad, gyrfaedd a'r economi.

Gobeithir y bydd y Comisiwn yn symleiddio'r ddarpariaeth ac yn datblygu cynnig mwy cyson ar gyfer dysgwyr, cyflogwyr a'u gweithlu.

## **Cymorth Gwladwriaethol**

O safbwynt Cymorth Gwladwriaethol ar gyfer darparu'r cymorth penodol hwn, mae yna ddwy lefel i'w hystyried ar gyfer Cymorth Gwladwriaethol; y broses o sefydlu'r Comisiwn a'r broses o ddarparu cymorth ar gyfer buddiolwyr terfynol. Mae'r Uned Cymorth Gwladwriaethol yn nodi y dylai bod yn bosibl helpu i sefydlu'r Comisiwn mewn ffordd seiliedig ar risg a 'dim cymorth', oherwydd at ddibenion cyfreithiol gellir dadlau ei fod yn 'gwmni Teckal' (cwmni "Teckal" yw'r enw cyffredin am gwmni sy'n elwa o gontractau am waith, gwasanaethau neu gyflenwi gan ei Awdurdod (neu Awdurdodau) Contractio Rheoli heb orfod mynd drwy broses dendro gystadleuol) ac felly'n cael ei ystyried yn 'gwmni mewnol'. Dyma'r dull y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio ar gyfer Banc Datblygu Cymru a Busnes Cymru.

Ar gyfer ariannu prosiectau ymchwil ac arloesi, byddai angen ystyried darparu cymorth ar sail achosion unigol; ac mae hyn yn fater y byddai'r Uned Cymorth Gwladwriaethol yn hapus i'w drafod â swyddogion dyfarnu wrth i'r corff newydd ddod yn weithredol yn 2022/3.

#### **4.2 Y Sector Cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus eraill**

Bydd y Comisiwn yn goruchwyllo'r pedwar prif sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol: sefydliadau addysg uwch, colegau addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned a darpariaeth chweched dosbarth brif ffrwd.

Mae Colegau AB yn cael eu categorio'n sefydliadau sector cyhoeddus, sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru drwy eu telerau ac amodau ariannu ond yn cael eu rheoli fel corfforaethau preifat.

Mae dosbarthiadau chweched dosbarth a gynhelir yn cael eu hariannu gan awdurdodau lleol ac felly maent yn perthyn i'r categori llywodraeth leol.

Mae sefydliadau AU yn gyrrff ymreolaethol preifat, wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy ffioedd dysgu dysgwyr a thrwy CCAUC.

Gan y bydd y Comisiwn yn dod â'r holl addysg ôl-orfodol o dan un corff, bydd y cynnig yn effeithio ar staff sy'n gweithio ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru ym maes cyflwyno a goruchwyllo darpariaeth AB, a staff CCAUC sy'n goruchwyllo darpariaeth AU.

Rhagwelir y bydd y Comisiwn yn hyrwyddo cydweithredu rhwng darparwyr ôl-16 mewn ffordd gadarnhaol ac yn helpu i greu cyrsiau newydd sydd eu hangen i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Mae'n bosibl y bydd y Comisiwn yn dod yn ymwybodol o ddarpariaeth sy'n cael ei hystyried yn is-safonol, neu ddarpariaeth sy'n cael ei dyblygu, ac os felly bydd yn gofyn i ddarparwr addasu ei gynnig. Yn y pen draw, gall y Comisiwn wrthod ariannu neu gefnogi darpariaeth.

Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am oruchwylio cyfran cyllid a gweithgareddau Estyn sy'n cwmpasu arolygiadau addysg ôl-16 a gweithgareddau eraill. Mae Estyn yn Gorff y Goron sy'n annibynnol ar Weinidogion Cymru ond yn cael ei ariannu ganddynt. Bydd y Bil yn cael effaith sylweddol ar drefniadau gweithredu Estyn a'i berthynas â rhanddeiliaid. Fodd bynnag, bwriedir i'r Comisiwn, ynghyd â Gweinidogion Cymru, sicrhau bod cyllideb graidd net Estyn yn cael ei chynnal ar y lefelau presennol. Bydd Estyn yn bartner hollbwysig i'r Comisiwn wrth sicrhau bod ansawdd darpariaeth addysg bellach a hyfforddiant yn parhau i wella a bod y ddarpariaeth yn cyflawni nodau cyffredinol y Comisiwn ac yn diwallu anghenion pobl Cymru.

### **4.3 Y Trydydd Sector**

Bydd prifysgolion a cholegau AB yn bartneriaid trydydd sector allweddol wrth gyflawni nodau cyffredinol diwygiadau AHO a gwredu manteision y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Bydd prifysgolion, colegau a darparwyr prentisiaethau a hyfforddiant yn gweld newidiadau yn ffynhonnell a gweinyddiaeth eu harian cyhoeddus, er na ragwelir y bydd y Bil yn arwain yn uniongyrchol at newidiadau mawr o safbwynt dyrannu cyllid neu'r lefelau cyllid y mae'r sefydliadau hyn yn eu derbyn. Bydd y Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymrwmo i Gytundeb Deilliannau gyda darparwyr sy'n derbyn cyllid ganddo. Bydd Cytundeb Deilliannau yn nodi sut y bydd darparwr a ariennir yn cyfrannu at gyflawni nodau strategol cyffredinol y Comisiwn. Y bwriad yw sicrhau bod gweithgarwch addysg ôl-orfodol a ariennir yn fwy cyson ag anghenion cymdeithas, diwylliant ac economi Cymru.

Hefyd, bydd y Bil yn newid sut mae'r darparwyr trydydd sector hyn yn cael eu rheoleiddio. Bydd y Comisiwn yn rheoli cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol, yn bennaf fel ffordd o reoleiddio mynediad at gymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer myfyrwyr. Bydd y gofrestr yn etifeddu nifer o ofynion rheoleidiol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer darparwyr, ac yn creu gofynion newydd o safbwynt llais dysgwyr a chwynion gan ddysgwyr. Disgwylir i broses reoleiddio gael ei rhoi ar waith lle y bo angen er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n effeithiol a'i fod yn cyfrannu at nodau cyhoeddus cyffredinol.

Bydd y darpariaethau yn newid y gwaith o oruchwylio sicrwydd llywodraethu Prifysgolion gan CCAUC i'r Comisiwn.

### **4.4 Effaith ar Gyfiawnder**

Mae'r Bil yn ailddatgan y drosedd o rwystro Prif Arolygydd (Estyn) yn fwriadol wrth iddo arfer swyddogaethau mewn perthynas ag arolygiad Estyniad o dan y Bil. Caiff penderfyniadau'r Comisiwn eu hadolygu gan unigolyn neu banel a benodir, fel sy'n digwydd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Yna, bydd argymhellion yr unigolyn



neu'r panel yn cael eu gwneud i'r Comisiwn, a fydd yn gwneud penderfyniad o'r newydd (neu'n cadw at ei benderfyniad gwreiddiol).

Hefyd, o fewn y darpariaethau data bydd gan y Comisiwn bŵer cyfarwyddo i ofyn am wybodaeth gan sefydliad neu unigolion penodol. Gellir gorfodi unrhyw gyfarwyddyd o'r fath drwy waharddeb. Fodd bynnag, gan y bydd dulliau gweithredu ar waith i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei choladu fel mater o drefn, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd yn ymarferol.

Mae effaith debygol cynigion Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ar y system gyfiawnder yn debygol o fod yn fach iawn, os o gwbl.

Yn dilyn trafodaethau, mae Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder wedi'i gyflwyno i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a bydd ar gael i'r cyhoedd ar ôl i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gymeradwyo'r asesiad.

O dan Adran 9 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi a chyflwyno polisi adnoddau naturiol a chymryd pob cam rhesymol i'w weithredu ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. Cyhoeddwyd y Polisi Adnoddau Naturiol ym mis Awst 2017.

### 5.1 Adnoddau Naturiol

Mae darpariaethau yn y Bil yn caniatáu sefydlu Comisiwn newydd i oruchwylio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol o bob math yng Nghymru yn ogystal ag ymchwil ac arloesi Llywodraeth Cymru. Ni ragwelir y bydd y darpariaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar Flaenoriaethau Cenedlaethol y Polisi Adnoddau Naturiol.

### Amodau Economaidd

Rhagwelir y bydd darpariaethau'r Bil yn cael effaith gadarnhaol ar amodau economaidd. Un o brif flaenoriaethau'r Comisiwn fydd diogelu buddiannau dysgwyr a sicrhau bod cymwysterau academiaidd a galwedigaethol yn cael eu gwerthfawrogi i'r un graddau a bod dysgwyr yn ennill y sgiliau priodol sydd eu hangen i lwyddo mewn marchnad fwyfwy cystadleuol. Yn ogystal, bydd y Comisiwn yn gyfrifol am gysoni addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ag anghenion cyflogwyr yng Nghymru, gan helpu i ddatblygu economi gryfach yn y dyfodol. Yn yr hirdymor, bydd gwella deilliannau addysgol dysgwyr yn cael effaith gadarnhaol ar fathau o gyflogaeth ac ansawdd cyflogaeth. Dros amser, bydd hyn yn helpu i leihau tlodi a'i effeithiau cysylltiedig.

Mae effaith gyfansawdd cyflogaeth yn gwella'r tebygolrwydd o gynyddu cyfoeth a sicrhau amgylchedd mwy iach adeg ymddeoliad, sy'n cael effaith uniongyrchol ar lesiant, adferiad a chyfraddau marwolaeth ymysg pobl hŷn.

#### 1.Effeithiau Cadarnhaol

Bydd darpariaethau'r Bil yn cael effaith gadarnhaol ar benderfynnyddion cyffredin iechyd, yn benodol ym meysydd gwella cyfleoedd cyflogaeth a'r manteision cysylltiedig ar gyfer llesiant meddwl a gwella safonau byw. Bydd economi gryfach yn helpu i fynd i'r afael â lefelau tlodi a'r effeithiau negyddol cysylltiedig ar iechyd.

#### 2.Effeithiau Negyddol

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar iechyd. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn a sefydliadau yn monitro hyn wrth i'r broses o ddatblygu'r polisi fynd rhagddi ac os yw camau lliniaru gofynnol yn cael eu rhoi ar waith.

## 5.2 Bioamrywiaeth

Mae economi Cymru ac iechyd a llesiant yng Nghymru yn dibynnu ar ecosystemau iach a chydnerth sy'n rhoi i ni ein bwyd, dŵr glân a'r aer a anadlwn, y deunyddiau crai ac ynni ar gyfer ein diwydiannau. Hefyd, maent yn ein hamddiffyn yn erbyn peryglon fel llifogydd ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Felly, mae bioamrywiaeth yn hanfodol i gynnal ecosystemau sy'n darparu'r gwasanaethau hanfodol y mae ein bywydau'n dibynnu arnynt. Os yw bioamrywiaeth yn cael ei golli ac efallai byth yn cael ei adfer yn llawn, mae'n effeithio ar allu ecosystemau i addasu i newidiadau ac aflonyddwch.

I ddangos cydymffurfiaeth ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth wedi'i gwblhau yn Atodiad F isod.

### Newid Hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd wedi cael ei nodi fel un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Ar 29 Ebrill 2019, cyhoeddwyd argyfwng hinsawdd yng Nghymru gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig. Roedd y cyhoeddiad yn amlygu pwysigrwydd y protestiadau diweddar yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd a'r dystiolaeth gan Adroddiad Arbennig y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) ar effeithiau cynhesu byd-eang o 1.5°C<sup>4</sup>.

Mae angen i ni leihau ein hallyriadau drwy gamau datgarboneiddio (5.3a) ac ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy gynyddu ein cadernid (5.3b).

### 5.3a Datgarboneiddio

Bydd y Bil Addysg Drydyddol, Hyfforddiant ac Ymchwil yn darparu ar gyfer sefydlu Comisiwn newydd sy'n goruchwyllo addysg ôl-16 ledled Cymru. Ni ragwelir y bydd darpariaethau'r Bil yn effeithio ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r newid yn yr hinsawdd, felly ni fydd angen asesiad llawn o'r newid yn yr hinsawdd.

### 5.3b Ymaddasu

Ni ragwelir y bydd sefydlu Comisiwn newydd ar gyfer goruchwyllo addysg ôl-16 yng Nghymru yn effeithio ar y gallu i ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

## 5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn berthnasol i gynlluniau, rhaglenni a strategaethau sy'n ofynnol o dan ddarpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol, y mae angen eu paratoi a/neu eu mabwysiadu ar lefel genedlaethol, ranbarthol

---

<sup>4</sup> <https://seneddresearch.blog/2019/05/09/wales-declares-a-climate-emergency/>

neu leol, neu eu paratoi gan awdurdod i'w mabwysiadu drwy weithdrefn ddeddfwriaethol (er enghraifft, Deddf Seneddol neu reoliad). Mae angen Asesiad Amgylcheddol Strategol os yw'r cynllun, y rhaglen neu'r strategaeth yn debygol o gael effaith mewn rhai meysydd allweddol – amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni, diwydiant, trafnidiaeth, rheoli gwastraff, rheoli dŵr, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref neu ddefnydd tir.

Ni ragwelir y bydd darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn cael effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd.

### **5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Diben Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw sicrhau nad yw cynllun neu brosiect yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar safleoedd Ewropeaidd, naill ai'n unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Mae safleoedd Ewropeaidd wedi'u dynodi o dan y Cyfarwydddebau Natur fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) – a elwir gyda'i gilydd yn safleoedd Natura 2000 (N2K). Hefyd, mae Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd yn berthnasol i safleoedd gwlyptir Ramsar (a ddynodwyd o dan Gonfensiwn Ramsar 1971 oherwydd bod eu gwlyptiroedd yn bwysig yn rhyngwladol), darpar ACA, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig, a safleoedd morol alltraeth Ewropeaidd arfaethedig a rhai sydd eisoes yn bodoli.

Ni ragwelir y bydd darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn cael effaith uniongyrchol ar reoliadau cynefinoedd.

### **5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol**

Os yw'r effeithiau'n gallu cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, mae Cyfarwydddeb Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn nodi bod yn rhaid cwblhau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) ac mae'r Gyfarwydddeb EIA yn cyflwyno gweithdrefn y mae'n rhaid ei dilyn ar gyfer mathau penodol o brosiect cyn y gellir eu caniatáu. Mae'r weithdrefn hon, a elwir yn Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA), yn asesu effeithiau sylweddol tebygol prosiect ar yr amgylchedd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y cyhoedd a'r awdurdod perthnasol yn deall yr effeithiau a ragwelir, a'r posibilrwydd o'u lleihau, cyn gwneud penderfyniad.

Ni ragwelir y bydd darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn cael effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd.

## ADRAN 6. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN GOFYNNOL

Mae'r adrannau uchod wedi helpu i lywio pa feysydd sydd angen asesiad effaith manylach. Mae crynodeb o'r asesiadau sydd eu hangen fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig hwn wedi'i restru isod. Dylid darllen yr asesiadau effaith llawn ochr yn ochr ac yng nghydestun y broses o arfarnu llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol fel y'i cyflwynwyd yn adrannau blaenorol yr Asesiad Effaith Integredig hwn.

Asesiad Effaith	Oes / Nac oes	Os oes, dylech
Hawliau Plant	Oes	
Cydraddoldeb	Oes*	
Prawfesur Polisiâu o Safbwynt Anghenion Cefn Gwlad	Nac oes	
Iechyd	Nac oes	
Preifatrwydd	Oes	
Y Gymraeg	Oes*	
Economaidd/Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Oes	I'w ychwanegu ar ôl ei gwblhau
Cyfiawnder	Oes	
Bioamrywiaeth	Oes*	
Newid Hinsawdd	Nac oes	
Asesiad Amgylcheddol Strategol	Nac oes	
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Nac oes	
Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	Nac oes	

\* Gorfodol ar gyfer pob cynnig er mwyn cyflawni rhwymedigaethau statudol.



## ADRAN 7. CASGLIAD

### 7.1 Sut mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi cyfrannu at ei ddatblygu?

Wrth ddatblygu'r cynigion hyn, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ag ystod eang o randdeiliaid. Cynhaliwyd dau ymgynghoriad ffurfiol, *Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus* a *Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf*, a chafodd y cynigion eu croesawu gan yr ymatebwyr ar y cyfan. Yn ogystal, cynhaliodd swyddogion sioeau teithiol ledled Cymru gyda rhanddeiliaid o'r sector trydyddol a fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynigion. Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o SABau, SAUau, CCAUC, awdurdodau lleol, cyflogwyr, darparwyr prentisiaethau a rheoleiddwyr i gael eu barn a'u hymatebion i'r cynigion.

Comisiynwyd ymgynghoriad<sup>5</sup> i ymgysylltu â phobl ifanc, gan gynnwys y rhai o grwpiau nodweddion gwarchoddedig, mewn ysgolion a cholegau ledled Cymru i gael eu barn am y cynigion. Cafodd dros 25 o ysgolion/colegau ledled Cymru, ynghyd â thros 10 o grwpiau nodweddion gwarchoddedig, eu cynrychioli yn ystod y broses ymgynghori hon.

Siaradodd swyddogion Llywodraeth Cymru ag amrywiaeth o randdeiliaid mewn digwyddiadau Skills Cymru<sup>6</sup>, gan ymgysylltu â dysgwyr a oedd yn amrywio o blant mor ifanc â 9 oed i oedolion hyd at 70 oed; cymysgedd cytbwys o ran y rhywiau; unigolion o wahanol hil; ac unigolion ag anabledau dysgu. Roedd enghreifftiau eraill o amrywiaeth yn cynnwys siaradwyr Cymraeg, cynrychiolaeth o grwpiau rhwydwaith rhieni, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a chanolfannau dysgu yn y gymuned.

Roedd adborth gan ddysgwyr yn awgrymu bod amryw o rwystrau i gael mynediad at addysg drydyddol. Er na fydd y darpariaethau yn y Bil yn mynd i'r afael â phob un o'r rhain yn uniongyrchol, bydd adborth o'r ymgynghoriadau'n cael ei rannu gyda'r Comisiwn, a bydd angen iddo ystyried hyn yn amodol ar ei ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

### 7.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf sylweddol, yn gadarnhaol ac yn negyddol?

Effaith fwyaf sylweddol y cynigion fydd yr effaith ar gydlynid y ddarpariaeth. Bydd y Comisiwn yn gallu defnyddio dull 'system gyfan' mewn perthynas â'r sector trydyddol, gan sicrhau bod y ddarpariaeth a'r cyllid yn cael eu cyfeirio lle maent eu hangen. Bydd cynnwys ymchwil ac arloesi a'r cysylltiad agos â chyflogwyr yn helpu i sicrhau bod y

---

<sup>5</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/171204-pcet-young-persons-consultation-report-cy.pdf>

<sup>6</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/171204-pcet-learner-voice-events-cy.pdf>

ddarpariaeth ddysgu yn gallu ymateb i anghenion cyflogwyr a bod yr ymchwil yn cael ei chyfeirio at y meysydd a fydd yn gallu gwneud y defnydd gorau o'r cyllid. Bydd hyn yn sicrhau bod cyllid yn cael ei dargedu mewn ffordd strategol a bod Cymru yn gallu cystadlu am gyllid ar lefel y DU.

Bydd Cymru yn cynnal a datblygu ymchwil ragorol yn y sector trydyddol, gan gydweithredu â sefydliadau, o fewn y DU ac yn rhyngwladol, i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd. Bydd cyllid ymchwil yn cefnogi ymchwil ac arloesi, gan hybu busnesau Cymru. Bydd sefydliadau'n gweithio i gynnal a gwella partneriaethau yn eu cymuned leol a ledled Cymru, y DU a'r byd mewn diwydiant a gyda'r sector cyhoeddus.

Bydd sefydlu'r corff newydd hwn yn galluogi cynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol cryfach a mwy sicr, yn cryfhau'r cysylltiad rhwng ymchwil ac addysg ac yn darparu system drydyddol sydd mewn sefyllfa well i ymateb i newidiadau macro, i greu llwybrau ar gyfer dysgwyr ac i uno'r sector mewn ffordd sy'n darparu ar gyfer dysgu gydol oes a datblygu sgiliau gwirioneddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu system drydyddol deg, ragorol, apelgar ac arloesol a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ac yn rhoi ymdeimlad o falchder cenedlaethol; system sy'n ymwybodol o'r parthau perfformiad a argymhellir yn 'Gwneud y Gorau o Gyfraniad y System Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol i Gyflawni Nodau Cenedlaethol Cymru'<sup>7</sup> ac yn cyfrannu at y nodau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<sup>8</sup>; system sy'n cryfhau seiliau economaidd a chymdeithasol Cymru ac yn ymateb i anghenion cyflogwyr a buddiannau dysgwyr o ran addysg a hyfforddiant ac ymchwil ac arloesi o safon uchel; system sy'n ychwanegu gwerth at y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu ond gydag agwedd ryngwladol eangfrydig.

Bydd gan y Comisiwn ddyletswydd i hyrwyddo cenhadaeth ddinesig gan sefydliadau yng Nghymru yn y sectorau addysg bellach ac uwch. Caiff ei alluogi hefyd i gefnogi cenhadaeth ddinesig gan bobl eraill, megis cyrff ymchwil ac arloesi y mae'n eu hariannu os yw o'r farn y byddai hynny'n briodol. Dylai'r system drydyddol ddarparu arweiniad, dewis effeithiol, mynediad teg a llwybrau priodol i gyfleoedd dysgu i bawb hefyd. Dylai

---

<sup>7</sup> 'Gwneud y Gorau o Gyfraniad y System Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol i Gyflawni Nodau Cenedlaethol Cymru – Adolygiad o'r systemau i fonitro a gwella effeithlonrwydd addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru' Adroddiad 2018 yr Athro Harvey P. Weingarten: <https://llyw.cymru/adolygiad-or-systemau-i-fonitro-gwella-effeithlonrwydd-addysg-hyfforddiant-ol-orfodol-pcet>

<sup>8</sup> Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Nodau Llesiant <https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-canllawiau>



economi Cymru gael ei chryfhau trwy annog menter, ymateb i anghenion cyflogwyr a galluogi sail ymchwil berthnasol sy'n tyfu.

Bydd y Comisiwn newydd yn annog y sector trydyddol i gydweithredu'n effeithiol trwy fabwysiadu dull system gyfan mewn perthynas â dysgwyr, lle mae darparwyr AB ac AU yn ymgysylltu â'i gilydd i wella'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Bydd y system yn darparu system sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, yn hyrwyddo dysgu gydol oes ac yn darparu dewis ac arweiniad effeithiol.

Bydd y system newydd yn galluogi dysgu, asesu a chynnydd trwy gyfrwng y Gymraeg i ddatblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau cynnydd ac yn cefnogi pawb, beth bynnag yw eu gallu yn yr iaith, i ddatblygu sgiliau Cymraeg i'w defnyddio yn gymdeithasol ac yn y gweithle.

### **7.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodir, sut fydd y cynnig:**

- **yn cynyddu i'r eithaf y cyfraniad at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

**Mae'r darpariaethau'n ymgorffori llawer o'r themâu allweddol yn ein hamcanion a'n nodau lleisant:**

#### Cefnogi pobl a busnesau i sbarduno ffyniant

Bydd datblygu'r Comisiwn newydd yn cryfhau seiliau economaidd a llesiant Cymru trwy annog menter, ymateb i anghenion cyflogwyr a galluogi sail ymchwil berthnasol sy'n tyfu. Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am hyrwyddo ymchwil yng Nghymru a gwneud cais am gyllid ar ran sefydliadau yng Nghymru, y DU a thu hwnt.

Bydd y Comisiwn yn goruchwyllo a rheoleiddio ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yn y sector addysg, hyfforddiant ac ymchwil drydyddol a ddarperir gan neu ar ran y sefydliadau hynny o fewn ei gylch gwaith sicrhau ansawdd.

#### Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg

Bydd anghydraddoldebau'n cael eu herio trwy ganolbwyntio'r darparwyr trydyddol ar anghenion yr ardal leol ac annog darparwyr trydyddol lleol i fod yn fwy cydgysylltiedig yn eu darpariaeth a sicrhau bod ystod eang o feysydd addysgol yn cael sylw yn yr ardal.

#### Cefnogi pobl ifanc i gyrraedd eu potensial llawn

Bydd y Comisiwn yn sbarduno ffyrdd newydd ac arloesol o weithio, gan ddod â darparwyr addysg a hyfforddiant yn nes at ei gilydd a'u cefnogi gyda mecanweithiau cynllunio ac ariannu strategol mwy cadarn, systemau perfformiad ac atebolrwydd cryfach a threfniadau gwella ansawdd a fydd yn galluogi Cymru i feincnodi a dysgu gan y gorau yn y byd.

#### Adeiladu uchelgais ac annog dysgu gydol oes

Bydd yn darparu system sy'n canolbwyntio ar y dysgwr sy'n hyrwyddo dysgu gydol oes ac yn darparu dewis ac arweiniad effeithiol a mynediad teg at lwybrau a chyfleoedd dysgu priodol. Bydd y Comisiwn newydd yn annog y sector trydyddol i gydweithredu'n effeithiol trwy fabwysiadu dull system gyfan lle mae dosbarthiadau chwech a gynhelir a darparwyr AB ac AU yn ymgysylltu â'i gilydd i wella'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Bydd y system yn darparu system sy'n canolbwyntio ar y dysgwr sy'n hyrwyddo dysgu gydol oes ac yn darparu dewis ac arweiniad effeithiol.

Mewn perthynas ag Ymchwil ac Arloesi, bydd y Comisiwn newydd yn ymgysylltu ar ran sefydliadau Cymru i wneud cais am gyllid Ymchwil ac Arloesi ledled y DU ar yr un telerau â sefydliadau'r DU a sefydliadau byd-eang.

### Sicrhau bod gan bawb y sgiliau priodol ar gyfer byd sy'n newid

Trwy gydweithredu â sefydliadau eraill, partneriaethau sgiliau rhanbarthol, Cydbwyllgorau Corfforaethol, busnesau a'r trydydd sector, bydd sefydliadau'n gallu sefydlu pa ofynion sydd ar waith a gweithio tuag at sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y sgiliau hynny ar gael i gymaint o ddysgwyr â phosibl.

### Creu cymunedau, diwylliant ac iaith gydnerth

Bydd y Comisiwn newydd yn sbarduno system sy'n galluogi dysgu, asesu a chynnydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, bydd y ddyletswydd neilltuol i hyrwyddo cenhadaeth ddinesig gan sefydliadau yng Nghymru yn y sector addysg drydyddol yn cyfrannu at hyn. Mae cenhadaeth ddinesig wedi'i diffinio yn y Bil fel gweithredu i'r diben o hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru.

### Darparu seilwaith modern a chysylltiedig

Bydd y Comisiwn yn annog sefydliadau i weithio gyda'i gilydd i ddarparu'r cyrsiau sydd eu hangen ar gymunedau, lleihau dyblygu a chanolbwyntio ar sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr yn y gweithle. Bydd yn rhannu ac adeiladu ar arferion gorau presennol ac yn annog cydweithredu lle bo hynny'n briodol.

### Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd

Bydd y Comisiwn yn hyrwyddo ac yn ymgeisio am gyllid Ymchwil ac Arloesi ar lefel y DU ac yn fyd-eang i sicrhau bod sefydliadau Cymru yn manteisio ar y ffrydiau ariannu posibl sydd ar gael ac yn cael eu cydnabod am eu gwaith ym maes Ymchwil ac Arloesi.

Cynigir y bydd dyletswydd ar y Comisiwn newydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu trwy gyfrwng y Gymraeg i ateb galw rhesymol.

Bydd hyn yn helpu i gynnal y defnydd o'r iaith trwy gydol addysg ac yn galluogi'r iaith i ymwreiddio ymhellach mewn cymunedau, gan helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni'r targedau sydd yn Cymraeg 2050, gan gynnwys creu gweithlu dwyieithog.

Bydd astudiaethau galwedigaethol ac academiaidd yn cael eu gwerthfawrogi i'r un graddau gan y Comisiwn, gan alluogi dysgwyr i ddatblygu eu doniau eu hunain a rhagori yn eu maes astudio o ddewis.

Bydd y Comisiwn yn gweithredu ar raddfa ryngwladol, gan ymgysylltu â chyrrff cyllido'r DU i wneud cais am gyllid ar lefel y DU ar ran sefydliadau yng Nghymru i ariannu mentrau yng nghynllun strategol Gweinidogion Cymru.

#### **7.4 Sut fydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo ddatblygu ac ar ôl iddo ddod i ben?**

*Pa gynlluniau sydd ar waith ar gyfer adolygu a gwerthuso ôl-weithredol?*

Mae cynigion y Bil yn rhoi sylw i amryw o feysydd yn ymwneud â darpariaeth drydyddol. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â sefydlu Comisiwn i oruchwylio addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi. Bwriedir iddynt wella addysg drydyddol yng Nghymru a galluogi darparwyr i wneud y defnydd gorau o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg, ymchwil ac arloesi.

Mae elfennau o'r ddarpariaeth hon ar lefel uchel i alluogi'r Comisiwn i greu'r systemau a'r prosesau manwl i weithredu'r sector addysg drydyddol. Felly, mae'r asesiadau effaith yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar yr adeg hon, cyn pasio a gweithredu'r ddeddfwriaeth.

Fel rhan o'i broses adrodd flynyddol, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn fyfyrion ar gynnydd yn erbyn ei gynllun strategol a gaiff ei lunio mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau strategol Gweinidogion Cymru.

Mae'n debygol y bydd mwy o fanylion yn dod i'r amlwg yng nghyfnod gweithredu'r ddeddfwriaeth, gyda gwell dealltwriaeth o'r canlyniadau posibl sy'n gysylltiedig ag unrhyw newidiadau a gynigir bryd hynny, a gellid cynnal asesiadau effaith wedi'u diweddarau ar yr adeg honno.

I Lywodraeth Cymru, mae proses adolygu lawn ar waith ar gyfer pob rhan o gynigion y Bil. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu ym Mhennod 10 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn darparu ar gyfer adolygiad ôl-weithredol ffurfiol ar ôl pump, deg a phymtheg mlynedd (yn dibynnu ar y mesur), ynghyd ag adolygiad parhaus o'r data fel sy'n briodol.